

DWY ERTHYGL GAN D. ROY SAER

a gynhwyswyd y tu mewn i glawr record hir Amgueddfa Werin Sain Ffagan, 'Traddodiad Gwerin Cymru', 1977: 'Y Gwasanaeth Plygain' ac 'Y Traddodiad Canu Carolau yn Nyffryn Tanat'

Y GWASANAETH PLYGAIN

Mewn amryw rannau o Gymru, golygai'r Nadolig godi'n gynnar (neu aros i fyny dros nos) i fynd i'r gwasanaeth plygain yn eglwys y plwyf. Ymddengys i awr gychwyn y plygain amrywio rhwng tri a chwech o'r gloch y bore, a'r olaf o'r rhain yn dod yn fwy cyffredin gyda threigl amser. I aros y gwasanaeth byddai pobl ifanc, yn enwedig, yn ceisio llenwi'r oriau mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Mewn ambell i ardal cefn gwlad doent ynghyd mewn rhai ffermdai ar gyfer gwneud cyflaith a threulio'r noson yn llawen, gan addurno'r tai â chelyn ac uchelwydd, fel ym Marford, sir Fflint yn yr 1830au.



Yn ôl dyddiadur Mrs Thrale o daith yn 1774, cynheuai trigolion Dyffryn Clwyd eu goleuadau am ddau y bore, a chanu a dawnsio i'r delyn tan y plygain. Mewn mannau eraill, yn arbennig drefi gwledig, treulid yr amser yn chwarae ar hyd y strydoedd. Yn Ninbych-y-Pysgod, sir Benfro, er enghraifft, ceid torfeydd yn cario ffaglau, bloeddio penillion a chwythu cynn buchod, cyn terfynu drwy ffurfio gorymdaith ffaglau lle'r eid â'r rheithor o'i ddy i'r eglwys gan wŷr ifainc y dref. Cofnodwyd gorymdaith debyg yn Nhalacharn, sir Gaerfyrddin, a hefyd yn Llanfyllin, sir Drefaldwyn, lle y defnyddid canhwylau yn lle ffaglau.

Yng nghefn gwlad mynychid plygain eglwys y plwyf gan bobl y ffermydd mwyaf anghysbell, hyd yn oed. Yn aml ddi pob unigolyn â'i gannwyll i oleuo'r eglwys: hyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, anghyffredin oedd cynnal gwasanaethau nos, fel nad oedd unrhyw ddarpariaeth oleuo, fel arfer. Yr oedd y goleuni llachar a roddai canhwylau'r plygeinwyr yn nodweddiadol bwysig ar yr wyl. Yn Llanfyllin, yng nghanol y ganrif o'r blaen,

gwneid ‘canhwyllau plygain’ arbennig gan fasnachwyr lleol. Ar gyfer y gwasanaeth, addurnid y tu mewn i’r eglwys â channwyllerni crog yn dal canhwyllau lliw, ac yn Nolgellau, er enghraifft, wedi eu gwisgo â chelyn. Ym Maentwrog yn Sir Feirionnydd, yr oedd canhwyllau hefyd ‘wedi eu gosod mewn tyllau ymhen polion neu byst ysgafn a sicrheid wrth gôr yma ac acw yn yr adeilad.’ Yn Llanfyllin ‘goleuid yr adeilad â rhai cannoedd o ganhwyllau, wedi eu lleoli fodfeddi ar wahân, o gwmpas y muriau y tu mewn, gan beri i’r adeilad ddisgleirio. Ym Maentwrog y “carolwyr a ganai yn yr oriel fechan ym mhen-y-tŵr i’r eglwys” a ddoi â’u canhwyllau eu hunain, gan ei bod yn rhy dywyll yn y rhan honno o’r adeilad i ddilyn y gwasanaeth yn y Llyfr Gweddi Cyffredin. Er yn ddiâu i’r arfer amrywio ychydig o blwyf i blwyf, ymddengys i oleuni llachar yr eglwys wneud argraff barhaol ar gof y rhai a adawodd inni ddisgrifiadau, ac iddo fod yn nodwedd drawiadol ar y plygain traddodiadol. Fel yr awgrymodd Gwynfryn Richards*, gellir canfod yn yr arferion hyn arwyddocad ysbrydol goleuo canhwyllau ar y Nadolig fel sumbol o ddyfodiad Goleuni’r Byd.

Am y plygain ei hun, ffurf dalfyredig ar y gwasanaeth boreol ydoedd, a charolau gan unawdwyr a phartïon yn rhan ohono ac yn ei ddilyn. Disgrifiodd William Payne y plygain yn Nolgellau, fel yr adwaenai ef yng nghanol y ganrif o’r blaen, gyda’r geiriau canlynol:

*Yn awr y mae’r eglwys yn wenfflam; yn awr o dan ei sang, gorff, ystlysau, oriel;
yn awr wele Sion Robert y crydd troed gam, a’i wraig, gan ddod i lawr o’r sedd
ganu i ran isaf a blaenaf yr oriel, yn taro bob yn ail, a heb gymorth annaturiol
gan bib-draw, y garol hirfaith a’r hen ffeffryn yn disgrifio Addoliad y
Brenhinoedd a’r Doethion, a’r Ffoad i’r Aifft, ac anfadrwydd ofnadwy Herod.*

*Hollol ddistaw yw’r tyrfaoedd ac wedi ymgolli mewn edmygedd. Yna saif y
Rheithor da, a’i gurad Dafydd Puw, a darllen y Gwasanaeth Boreol yn fyr, gan
orffen â’r weddi dros Bob Cyflwr ar Ddynion, a’r fendith.*

*Aflonydd, ymchwyddol braidd yw’r gynulleidfa yn ystod y gweddïau, a rhaid i’r
Rheithor weithiau dorri’n sydyn ar ei waith i edrych yn syth tuag at ryw ran neu
bersonau, ond heb gerydd llafar.*

*A’r gweddïau trosodd, cychwynna’r cantorion eto ragor o garolau – cantorion
newydd, hen garolau mewn unawdau, deuawdau, triawdau, partïon, yna
distawrwydd yn y gynulleidfa, wedi ei dorri gan seibiau priodol gan rwystrus*

furmur yr hyfrydwch a'r gymeradwyaeth, nes rhwng wyth a naw, a newyn yn dweud ar y cantorion, y mae'r Plygain drosodd a they'r clych ganiad llawn.

Ym Maentwrog cynhwyswyd pregeth yn y gwasanaeth plygain, ond gofalai'r rheithor am gadw'r bregeth a'r gwasanaeth yn gwta, gan ei fod yn amlwg yn teimlo mai'r prif atyniad oedd, nid y gwasanaeth, ond y canu carolau a'i dilynai. Mewn lleoedd eraill, fel Llanfair Dyffryn Clwyd, rhoid y Cymun Bendigaid yn ystod y plygain.

O'i weld yn ei gefndir hanesyddol, goroesiad yw'r plygain o wasanaeth Nadolig cyn-Ddiwygiad a addaswyd i ateb amgylchiadau Protestanaidd newydd. Dengys Richards fod 'plygain' yn yr unfed ganrif ar bymtheg yn dynodi gwasanaeth boreol cyffredin ac mai'n ddiweddarach yn unig y'i cyfyngwyd i gyfeirio at y gwasanaeth bore Nadolig. Awgryma i'r plygain ddisodli offeren ganol nos Nadolig y cyfnod Pabyddol ac iddo gysylltu'n wreiddiol â gwasanaeth cymun a gynhelid yn ddiweddarach ar fore Nadolig.

O leoli'r gwasanaeth cymun am wyth o'r gloch, diweddwyd yr hen berthynas rhwng y plygain (boreol) am chwech, saith neu wyth o'r gloch a'r Uchel-Offeren am naw neu ddeg o'r gloch. Wedi'r Diwygiad, lle nas cynhwyswyd yng ngwasanaeth Nadolig Lladin y eglwys, derbyniwyd canu carolau yn yr iaith lafar i wasanaeth bore-bach y Nadolig, a daeth yn atyniad pennaf y plygain, fel y dengys disgrifiadau'r ganrif o'r blaen yn eglur. Tynnodd John Fisher sylw at y tebygrwydd rhwng *Oiel Verrey*, a geid ar Ynys Manaw am ddeuddeg ar Noswyl Nadolig, a'r plygain yng Nghymru. Dengys i'r ddau wasanaeth ennill poblogrwydd fel gwyliau canu carolau yn fuan wedi cyfieithu'r Beibl i'r ddwy iaith frodorol.

Yn lle diflannu o dan ddylanwad Anghydfurfiaeth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, bu'r plygain yn un o'r ychydig wyliau eglwysig traddodiadol nas gollyngwyd gan y capeli, er newid cymeriad y gwasanaeth weithiau drwy ei wneud yn amrywiad ar y cwrdd gweddi cyffredin a geid ar nosau gwaith.

Fel arfer cyffredinol, darfu plygain boreol y Nadolig tua diwedd y ganrif ddiwethaf, er iddo barhau'n ddiweddarach mewn ambell achos.

* Gwynfryn Richards, 'Y Plygain', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes yr Eglwys yng Nghymru*, 1947.

Y TRADDODIAD CANU CAROLAU YN NYFFRYN TANAT

O gwmpas y Nadolig, 1964, y dechreuwyd ymddiddori yn nhraddodiad carolau'r dyffryn gan Amgueddfa Werin Cymru. Man cychwyn y gwaith ymchwil fu dwyn peiriannau recordio i'r gwasanaeth plygain.

Cynhelir y gwasanaeth mewn eglwys a chapel yn ddiwahân.

'Plygain' (*plygien* yn dafodieithol) yw'r enw lleol arno o hyd. Tarddiad y gair hwn yw'r Lladin *pulli cantus*, ac felly cyfeiria at ganiad y ceiliog ar doriad dydd. Fodd bynnag, nid yn y bore bach y cedwir plygeiniau heddiw yn ardaloedd cyffiniol siroedd Dinbych, Trefaldwyn a Meirionnydd, eithr gyda'r hwyr, tua saith o'r gloch. Nid ydynt ychwaith ar ddydd Nadolig; fe'u lleolir rywbryd rhwng canol Rhagfyr a chanol Ionawr, ac ar nosau gwaith yn ogystal â'r Suliau.*

** Mae'r cyfnod hwn wedi ymestyn yn raddol ers y 70au. Bellach mae'n ymestyn o ddechrau Rhagfyr hyd at ddiwedd Ionawr - Gol.*

I ddieithryn, profiad anghyffredin heddiw yw mynd i blygain yr ardaloedd hyn. Mewn eglwys, dechreuir gyda'r Brynhawnol Weddi - wedi ei chwtoegi o bosibl; mewn capel clywir emyn neu garol, darlleniad a gweddi fer. Am awr a hanner i ddwyawr wedyn fe fydd trefn y cyfarfod yn gyfangwbl yn nwylo'r carolwyr. Ni pharatowyd rhaglen ymlaen llaw ac nid oes gyflwynydd nac arweinydd. Ni ddywed neb yr un gair, eithr cyfyd y partion yn eu tro gan gerdded ymlaen yn dawel a phwyllog at ris y gangell neu i'r 'sgwâr' (fel y gelwir sedd y blaenoriaidi) i ganu. Ar gyfartaledd bydd o ddeg i bedwar ar ddeg o bartion yn bresennol. Fe glywir o ugain i ddeg ar hugain o garolau yn ystod y gwasanaeth, y cwbl (ag eithrio dwy neu dair efallai) yn Gymraeg, a'r cwbl hefyd yn wahanol, gan ei bod yn egwyddor i osgoi ailganu unrhyw garol. Diweddir gyda'r diolchiadau, y casgliad, carol gan y gynulleidfa, a chyhoeddi'r Fendith. Yna adref â 'gwrandawyr' y noson, eithr i'r carolwyr fe fydd swper arbennig wedi ei ddarparu yn y festri, y neuadd neu dai cyfagos, ac ar ôl bwyta eu gwala ânt ati wedyn yn y fan a'r lle i ganu carolau hyd tua hanner nos.*

** Nid yw'r arferiad olaf hwn yn bodoli bellach - Gol.*

Y mae i'r plygain amryw nodweddion diddorol heblaw ei hamddenolrwydd ffurfiol. Bychan yw'r partion bron i gyd, a'r ffurfiau mwyaf poblogaidd o ddigon yw'r pedwarawd cymysg a'r triawd gwâr (yn canu 'top, tenor a bas' chwedl y carolwyr). Dynion yw'r mwyafrif o'r cantorion. Yn ddigyfeiliant y ceny pawb, a'r unig ddefnydd ar offeryn cerdd gan sawl un ohonynt yw taro

seinfforch cyn canu. Anochel sylwi bod tua hanner y partïon (ac yn enwedig y triawdau gwŷr) yn canu o lyfrau ysgrifennu personol, ac aml un o'r rheiny'n dwyn ôl traul caled dros gyfnod maith.

Yn ystod tymhorau'r Nadolig 1964-66 recordiwyd y pum plygain a gynhelid yn gyson yn y dyffryn bryd hynny. Canfuwyd mai Anghyddfurfiaeth yw prif gynheiliaid y plygain lleol bellach, a hefyd (ac eithrio plygain egwan Llanarmon Mynydd Mawr) mai'r un partïon ymron a glywir yn yr holl blygeiniau uchod. Mewn geiriau eraill, nid aelodau o unrhyw addoldy mo'r carolwyr, eithr cynrychiolwyr gwahanol eglwysi a chapeli yn y fro. Daw'n amlwg, felly, fod y plygeiniau - pa mor anffurfiol bynnag font ynddynt eu hunain - yn dibynnu ar gyfundrefn gydweithredol a barheir yn ofalus. Hanfod y trefniant yw'r egwyddor o ad-dalu dyled, a diau fod parchu'r ddyletswydd honno gyda'r rheswm pennaf am gadw'r traddodiad carolau yn ei rym hyd heddiw yn Nyffryn Tanat a'i chyffiniau.

Cyfeiriwyd eisoes at lyfrau'r carolwyr. Archwiliwyd y rhain yn fanwl, yn ddefnyddiau printiedig ac ysgrifenedig. Yn aml ni cheid yn y llyfrau ysgrifennu namyn geiriau'r carolau (ynghyd â nodi cyweirnod canu, efallai); bryd arall cynhwyswyd cerddoriaeth hefyd, mewn nodiant sol-ffa ac ar gyfer tri neu bedwar llais, gan amlaf.

Buan y cadarnhawyd bod geiriau'r carolau yn y llyfrau hyn yn deillio - naill ai'n uniongyrchol neu trwy eu hailgopïo o ffynonellau ysgrifenedig eraill - o'r cyfrolau printiedig y ceir copiau ohonynt yma ac acw yn Nyffryn Tanat o hyd. (Ar y llaw arall, nid oes modd olrhain y gerddoriaeth at darddle printiedig bob tro). Nid oes, ychwaith, hynafiaeth eithriadol i eiriau'r carolau cynharaf a ddefnyddir heddiw yn y dyffryn: prin y gellid mentro dyddio testunau mwy na dyrnaid bach ohonynt cyn 1800. Eto i gyd - beth bynnag am eu hoed - ymddengys bod nifer helaeth o'r carolau sy'n dal yn fyw yn Nyffryn Tanat a rhai ardaloedd cyfagos yn adnabyddus yn awr mewn rhannau eraill o Gymru. Pwysicach wedyn, efallai, yw fod geiriau rhai o'r carolau hyn yn adlewyrchu'r dechneg fydryddol a nodweddi'r garol (a'r faled) yng ngogledd Cymru fyth er yr ail ganrif ar bymtheg neu'n gynharach.

Cyfuniad o ganu rhydd a chaeth oedd y garol hon: acennai'n rheolaidd, eithr ar yr un pryd yr oedd patrymau cynganeddol yn gwau trwyddi. Fe'i lluniwyd ar gyfer ei chanu, a hynny ar un o geinciau poblogaidd y dydd - yr union geinciau y cenid arnynt hefyd faledi Cymraeg. Wrth argraffu neu

ysgrifennu'r garol nodid uwch ei phen enw'r gainc briodol iddi: pethau fel *Greece and Troy*, *Crismon Velvet*, *King George's Delight*, *The Belle Isle March*, *Betty Brown*, *Gwêl yr Adeilad*, *Mentra Gwen*, *Y Ceiliog Gwyn a Ffarwel Ned Puw*. (O restru'r rhain yn llawn, daw'n amlwg fod ugeiniau ohonynt yn gyffredin gynt ar lafar gwlad). Dyma sut y darluniodd Thomas Parry grefft y beirdd carolaidd yng ngogledd Cymru:

Penderfynai'r gainc ffurf y mesur. Meithrinodd y beirdd hyn eu dull arbennig eu hunain o ganu geiriau ar geinciau o gerddoriaeth. I gychwyn, fe roid odl yn y geiriau ar ddiwedd pob cymal yn y gerddoriaeth. Yr orchest wedyn oedd rhoi cynghanedd a pherseinedd cyson yn y cymalau hynny, ac uno'r cymalau yn un pennill, gan gofio bod y pennill gorffenedig i ganu'n esmwyth ar y gainc y bwriedwyd ef iddi. Llwyddasant yn wyrthiol.

Ffurfiar ambell fesur adeiladwaith cymhleth tu hwnt, ond serch hynny, wele feirdd gwlad yn trin, yn ôl gofynion mesurau rhyddion a cherddoriaeth, addasiad o'r gyfundrefn seiniol astrus a berffeithiwyd gan gywyddwyr proffesiynol yn yr Oesoedd Canol. Ac nid awduron heb gynulleidfa mo'r beirdd gwlad hyn. Ymddengys i'r carolau plygain gael derbyniad parod, ac enillasant gylchrediad a pharhad drwy gyfrwng y dudalen a'r llais. Cynhyrchwyd cannoedd ohonynt, a'u poblogeiddio wedyn drwy gyfrwng llawysgrifau, pamffledi, almanaciau a llyfrau, yn ogystal ag ar dafod leferydd. Beth bynnag am gymhlethdod eu techneg fydryddol, hwynt-hwy a roes fynegiant i neges ac emosiwn y Nadolig ymhlith gwerinwyr gogledd Cymru am genedlaethau.

Trafodwyd cynnwys y carolau plygain yn fanwl gan Miss Enid P. Roberts, ac ni ellir gwell yn y fan hon na chrynhoi yn fyr ychydig o'r llu pwyntiau a godwyd ganddi. Swyddogaeth gyntaf yr awduron carolau, meddir, oedd canu mawl i ddathlu gŵyl y Geni a "swm a sylwedd y cyfan yw mor rhyfeddol ac anfesuradwy yw trugaredd Duw..." Ochr yn ochr â hyn ceid "tipyn o athrawiaethu a llawer iawn o gynghori ac annog." Peth arferol mewn rhai carolau oedd cyflwyno "math o grynodeb o hanes bywyd Crist" eithr gwneid hynny ar sail tystiolaeth yr Efengylau - "Ni cheir yn Gymraeg...ddim o'r *folksong carols* sydd mor niferus yn Saesneg, carolau yn cynnwys chwedlau apocryffaol..." Nodir, ymhellach, nad oedd yn y traddodiad Gymraeg amryw o fathau o garolau a fu'n boblogaidd mewn gwledydd eraill: carolau hwiangerdd, carolau'r Geni, carolau'r Ymgnawdoliad, carolau'r Cyfarchiad, carolau'r Bugeiliaid a charolau'r Doethion. "Fel yr â'r blynyddoedd rhagddynt daw mwy a mwy o

athrawiaethau i'r carolau a llai o hanes am Grist"; eto i gyd, "elfennol" oedd yr athriawaeth a gynigient. Gellir ychwanegu yn y fan hon bod meithder yn nodwedd gyffedin yn y garol blygain yng Nghymru: rhoid ynddi weithiau o bymtheg i ugain o benillion hirion. Diddorol sylwi ar yr un pryd mai ambell dro yn unig yr oedd iddi 'fyrdwn' - a lle cynhwysid hwnnw, hwyrach nas ceid ond ar ôl bob yn ail bennill.

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg daeth y garol gynganeddol Gymraeg i ben ei thennyn. Ar yr ochr lenyddol, troes at fesurau symlach a mwy rheolaidd eu ffurf, ymwadodd yn raddol â'r gyfundrefn gynganeddol ac aeth yn fwy telynegol ei naws - mewn geiriau eraill, ymdebygodd fwyfwy i'r emyn. Erbyn cyrraedd ail hanner y ganrif yr oedd y broses gystal â dirwyn i ben. Bu trawsnewid ar yr ochr gerddorol hefyd. Wedi canol y ganrif cynigwyd cerddoriaeth wahanol i gymryd lle'r alawon llafar gwlad, a gellir olrhain y broses o alltudio'r hen geinciau trwy lafur cerddorion fel J.D.Jones, y Parchedig Owen Jones, Owen H Davies ('Eos Llechid'), Richard Mills a T. Cilwern Davies (o Lanymawddwy).

Rhan hanfodol o waith ymchwil yr Amgueddfa tua Dyffryn Tanat fu recordio sgrysfeydd a charolwyr ynglŷn â gwahanol agweddau ar y traddodiad lleol.

Buan y daeth yn amlwg fod gan y carolwyr falchder eithriadol yn eu defnyddiau canu, ac edrychir ar y carolau hynaf fel gwaddol i'w drysori. Yn naturiol, efallai, ymdrechir i sicrhau *repertoire* mor helaeth ag sy'n bosibl - ac y mae hyn nid yn unig yn arwydd o ragoriaeth ynddo ei hunan, ond hefyd yn cyflenwi angen ymarferol mewn plygain pe digwyddai i bartion eraill fod wedi dewis canu yr un carolau. Weithiau ystyria parti neu deulu bod iddo ryw fath o hawlfraint anysgrifenedig yn achos ambell garol. Clywyd am enghreifftiau o daro geiriau a miwsig carolau ar bapur wrth wrando ar eu canu mewn plygain. Anaml y rhydd parti garolau i gantorion eraill onid yw ef ei hunan yn ymddeol o'r maes. Hyd yn oed wedyn, y duedd yw cadw'r defnyddiau yn y teulu - uned deuluol yw llawer parti, wrth gwrs.

Erbyn heddiw, prin yw'r hen garolau cynganeddol ym mhlygain Dyffryn Tanat. Wedi brwydr hir y maent yn bygwth cilio, gan adael y llwyfan i ddefnyddiau diweddarach. Serch hynny, yng ngolwg amryw gantorion a gwrandawyr, nid oes yr un dim a ddeil ei gymharu â'r carolau hŷn. Ymhlith rhai pobl, y mae'r posibilrwydd fod unrhyw garol yn hen yn cynyddu parch tuag ati ar unwaith.

Edrychir ar y triawd gwŷr fel prif gyrychiolydd presennol yr hen draddodiad. Yn un peth, ganddo ef y tueddir i glywed y defnyddiau cynharaf a oroesodd, ond gwerthfawrogir hefyd rai pethau eraill ynglŷn â'i ganu. Lle bo pedwarawdau cymysg, dyweder, yn canu o drefniannau cerddorol printiedig, ceir o hyd ambell driawd a gododd alaw garol oddi ar lafar gwlad a mynd ati eu hunain i gynganeddu'r rhannau tenor a bas. Yn wir, cas gan ambell garolwr ganu mewn parti pedwar llais, meddir, oherwydd cyfyngu ar ei ryddid creadigol. Hwyrach fod hyn hefyd yn un rheswm pam y gwgir ar roi i garolwyr gyfeiliant offeryn cerdd. (Rheswm arall yw tybio mai canu'n ddigyfeiliant fu'r arfer traddodiadol - er y gellid dangos bod peth canu carolau i gyfeiliant y delyn yn eglwysi Cymru yn nechrau'r ganrif ddiwethaf, ac efallai cyn diwedd y ddeunawfed ganrif.)

Cymer y cantorion ddiddordeb byw yng ngherddoriaeth eu carolau. Ar yr un pryd, yn ôl canonau hen garolwyr yr ardal, ni all fod unrhyw amheuaeth nad prif nod amgen y grefft o gyflwyno carol yw rhoi sylw dyladwy i'r geiriau. Adrodd stori a chyfleu neges yw swyddogaeth gyntaf carolwr. Fel y digwydd, anodd osgoi sylwi bod geirio'r carolwyr at ei gilydd yn hynod o eglur, a hynny o gynganiad sydd ymron mor naturiol â siarad. Ni roir gormod o bwys ar feddu llais canu da - ystyriwyd yn garolwyr penigamp amryw gantorion lleol nad oeddynt leiswyr eithriadol yn ôl safon eisteddfod neu gyngerdd.

+++++

Wrth holi am hanes y gwasanaeth carolau eu hunain fe gafwyd bod y gyfundrefn gydweithredol rhwng plygeiniau yn beth cyffredin ers cenedlaethau. Yn wir, cyn geni trigolion heddiw, ceid ynghanol y dyffryn drefniant unigryw ar Ddydd Nadolig, meddir: canai carolwyr ym Mwlch-y-Ddâr cyn toriad gwawr, cerdded i lawr i eglwys Llangedwyn erbyn saith y bore (deg neu unarddeg a ddywed eraill), cymerent ran yn eglwys Llanarmon yn y prynhawn, a gorffen eu cylchdaith yn eglwys fawr Llanrhaeadr gyda'r hwyr.

Un datblygiad pwysig yn hanes y plygain - a'i achubiaeth o bosibl - fu symud y gwasanaeth o'i hen safle ar fore'r Nadolig. Dengys geiriau amryw o'r carolau a glywir yn Nyffryn Tanat heddiw mai tua thoriad gwawr y bwriadwyd iddynt gael eu canu, ond gwyddys nad oedd yr un plygain cyn dydd yn aros yn y dyffryn erbyn 1900.

Law yn llaw â phlygain y bore âi hen arferiad arall, sef canu carolau wrth y drysau ar y nos cyn y Nadolig. Gynt, trefnai'r carolwyr eu teithiau fel y dygid hwy yn y diwedd i'r blygain. Pan fu farw'r gwasanaeth boreol, yr oedd y canu wrth y drysau yn ddigon poblogaidd i gael ei gynnal hebdo. Fel arfer, gwŷr yn unig a âi allan, yn bartïon o dri neu bedwar. Parheid i ganu trwy'r nos, hyd amser codi, a pheth cyffredin oedd crwydro chwe milltir neu ragor. Rhoid dwy neu dair carol wrth bob tŷ, gan gael arian neu wydraid o ddiod a *mince pies*, efallai, am y drafferth. Mentrai ambell barti allan drachefn y noson wedyn a dichon y byddai rhywrai wrthi drwy gydol wythnos y Gwyliau. Ar adeg y cyni a ddaeth gyda'r Rhyfel Byd Cyntaf, wynebodd yr arfer gondemnio hallt gan bobl a fynnai ei ddehongli fel cardota, ond fe'i cynhaliwyd yn y dyffryn am tua deng mlynedd arall cyn iddo ddiflannu'n llwyr.

+++++

Erbyn ymgynghori â ffynonellau gwybodaeth ychwanegol – Cyfrifon Wardeiniaid ac Arolygwyr Eglwysi, llyfrau carolau printiedig, almanaciau a llawysgrifau – y mae modd dadlau i breswylwyr Dyffryn Tanat adnabod y garol Nadolig Gymraeg yn dda ar draws tair canrif a rhagor. O droi wedyn a bwrw bras olwg ar y traddodiad canu carolau yng ngwledydd Prydain yn ystod y canrifoedd diweddar, ni ellir llai na chanfod arbenigrwydd cryn dipyn o'r hyn a drafodwyd uchod. Mae'n wir bod yr *Oie'l Verrey* a'i chanu *carvals* ar Ynys Manaw yn hynod o debyg i'r plygain, a gwyddys i'r cyfarfod carolau eglwysig gael lle amlwg gynt yn ne-orllewin Loegr. Eo i gyd, dywedir nad oes “odid ddim tystiolaeth am wasanaeth carolau yn yr eglwysi yn Lloegr, ar wahân i Gernyw...” tra bod y plygain yn rhan anhepgor o ŵyl y Nadolig yng Nghymru am rai canrifoedd.

Am Iwerddon – a'r Wyddeleg, debyg – dywed un awdurdod cyfoes, “the custom of carol singing does not appear to have existed in Ireland, and no carols have been collected.” Ynglŷn â'r Alban, nid oes amheuaeth na chafodd Piwritaniaeth effaith andwyol dros ben ar ganu carolau. Yn Lloegr yr oedd amryw o'r nodweddion a welwyd yn y traddodiad Cymreig yr un mor hysbys – fel canu carolau wrth y drysau, cyhoeddi carolau ar daflenni neu mewn llyfrynnau, a chelu carolau fel eiddo personol gwerthfawr. Serch hynny, o gymharu â'r datblygiadau yng Nghymru, gellir mentro dweud mai digon isel ei pharch fu'r garol yn Lloegr am ddau can mlynedd o ganol yr ail ganrif ar bymtheg ymlaen.

A chyfeirio sylw yn ôl at Gymru, canfyddir nad unffurf fu'r patrwm creadigol yma, chwaith. Ebe Miss Enid P. Roberts:

Yn y ddeunawfed ganrif yr oedd beirdd gwlad dyffrynnoedd Conwy a Dyfrdwy yn cyfansoddi baledi ac anterliwtiau, a beirdd gwlad Sir Gaerfyrddin a rhannau eraill o'r De yn cyfansoddi emynau. Yn yr un cyfnod, ac ymlaen i ddechrau'r ganrif ddilynol, yr oedd beirdd gwlad dyffrynnoedd Banw ac Efyrynwy, a rhannau uchaf dyffrynnoedd Tanat a Dyfi, yn cyfansoddi carolau, carolau plygain fel rheol gydag ambell i enghraifft o garol Basg.

O'r dyffrynnoedd olaf hyn a'u cyffiniau, wrth gwrs, y deilliodd cynnwys y record bresennol.